

# Datganiad Hygyrchedd

[See all updates](#)

Rydym wedi ymrwymo i ddarparu gwefan sy'n hygyrch i bawb.

## Cwmpas y datganiad yma

Dyma'r datganiad hygyrchedd ar gyfer [heritagefund.org.uk](http://heritagefund.org.uk) yn unig.

Mae datganiadau ar wahân ar gyfer ein:

- [porth ymgeisio](#)
- [ein porth recriwtio](#)

## Defnyddio'r wefan

Mae llawer o bethau y gallwch eu gwneud i wneud y we yn haws i'w defnyddio. Gall hyn olygu newid gosodiadau eich porwr, cyfrifiadur, bysellfwrdd neu lygoden.

Mae ein gwefan wedi'i llunio gyda hygyrchedd mewn golwg – mae nodweddion craidd y wefan fel a ganlyn:

- Mae gwe-lywio wedi'i roi ar waith mewn ffordd resymegol a chyson
- Darparwyd dolen llywio i sgipio
- Mae'r cynnwys wedi'i ysgrifennu mor glir a syml â phosibl
- Gellir newid maint y testun gan ddefnyddio'r porwr gwe (mwy o wybodaeth isod)
- Mae penawdau'n glir ac yn defnyddio strwythur rhesymegol
- Gellir deall dolenni allan o'u cyd-destun
- Dolenni'n agor yn yr un ffenestr oni nodir yn wahanol
- Mae gan ddelweddau destun amgen
- Mae gan ddelweddau addurniadol destun amgen null
- Mae gan y tablau grynodedbau, capsiynau a phenawdau priodol
- Mae sain a fideo wedi'u gosod i beidio â chwarae'n awtomatig
- Mae trawsgrifiadau testun neu isdeitlau ar gael ar gyfer cynnwys sain a fideo
- Mae'r wefan hon hefyd ar gael yn yr iaith Gymraeg drwy'r ddolen toglo ar frig pob tudalen

## Achrediad hygyrchedd

Mae gwefan Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol wedi cyflawni lefel uchel o hygyrchedd ac [mae wedi ennill gradd 'Hygyrch' Shaw Trust gan Wasanaethau Hygyrchedd Shaw Trust.](#)



Mae unrhyw wefan sy'n cario'r marc hwn yn cael ei phrofi ar hyn o bryd gan bobl ag ystod eang o anableddau i dynnu sylw at rwystrau hygyrchedd a allai fod yn bresennol, a gweithredu atebion i ddarparu cynnwys cynhwysol.

Mae proses Asesu ac Achredu Digidol Shaw Trust yn drylwyr. Mae dros 60 awr o [brofion hygyrchedd](#) gan ddefnyddwyr ag anabledd yn mynd i bob achrediad.

## Gwybodaeth dechnegol am hygyrchedd y wefan

Mae Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol wedi ymrwmo i wneud ei gwefan yn hygyrch, yn unol â Rheoliadau Hygyrchedd Cyrff Sector Cyhoeddus (Gwefannau a Chymwysiadau Symudol) (Rhif 2) 2018.

Mae'r wefan hon yn cydymffurfio'n rhannol â [safon AA Canllawiau Hygyrchedd Cynnwys y We fersiwn 2.1](#), oherwydd y diffyg cydymffurfio a restrir isod.

## Cynnwys nad yw'n hygyrch

Oherwydd rhai cyfyngiadau, bu'n rhaid i ni gynnwys technolegau a nodweddion a allai achosi problemau hygyrchedd. Mae'r rhain yn cynnwys:

### Ddim yn cydymffurfio â'r rheoliadau hygyrchedd

Gan gynnwys eitemau a amlygwyd gan asesiad Shaw Trust - sydd yn y broses o gael eu cywiro:

- **Cyferbyniad lliw (1.4.3)** - mae rhai elfennau o thema ein gwefan bresennol nad oes ganddynt ddigon o gyferbyniad lliw. Mae'r thema hon yn cael ei disodli gan un newydd - lle caiff y materion hyn eu datrys
- **Ail-lif (1.4.10)** - mae yna ofod lle mae'r fwydlen yn gorgyffwrdd â rhywfaint o gynnwys ar gyfer defnyddwyr symudol
- **Bysellfwrdd (2.1.1)** - mae modd chwilio a phrif ddewislen i ddefnyddwyr bysellfwrdd yn unig ar ffôn symudol.
- **Dewisiadau amgen teitl/testun coll mewn Fideo a Sain (1.2.2, 1.2.4)** - nid yw ymgorffori fideos yn arddangos teitlau/testun alt. [Mae hwn yn fater parhaus gyda'r ategyn sy'n rhoi'r nodwedd hon ar waith a byddwn yn datrys unwaith y bydd ar gael.](#)

- **IDs dyblyg (4.1.1)** - lle mae sawl ffurflen yn bodoli ar dudalen - mae IDs dyblyg yn bresennol. Mae hwn yn nam wedi'i ddogfennu gyda [Drupal Core a byddwn yn monitro ar gyfer atebion a gyflwynwyd](#)
- **Ffocws gweladwy (2.4.7) ac ar ffocws (3.2.1)** - ni all ein ffurflen cofrestru rhestr bostio gael ei pharu ar hyn o bryd gan ddefnyddwyr bysellwrdd yn unig. Mae'r cod hwn yn cael ei gynhyrchu gan wasanaeth trydydd parti ond rydym yn edrych ar ddewisiadau eraill i gydymffurfio. Rydym hefyd yn gweithio i wneud ein elfen yn canolbwyntio'n gliriach i ddefnyddwyr

## Baich anghymesur

Ddim yn berthnasol ar hyn o bryd.

## Cynnwys nad yw o fewn cwmpas y rheoliadau hygyrchedd

- Mae ein ffurflen cofrestru e-bost yn seiliedig ar god o gais trydydd parti. Rydym yn edrych ar opsiynau i wella hyn
- [OpenStreetMap](#) (cais map trydydd parti)
- Ymgorffori cyfryngau cymdeithasol (ceisiadau map trydydd parti)
- YouTube (cais fideo trydydd parti), gan gynnwys fideos a gynhyrchir gan bartneriaid
- System ymgeisio am grant (cronfa ddata trydydd parti)
- Ein calendr digwyddiadau (cais trydydd parti)

Rydym yn gwneud pob ymdrech i oresgyn y cyfyngiadau hyn drwy wella eu hygyrchedd a methu hynny, darparu dewisiadau amgen hygyrch.

Os oes angen fersiynau eraill arnoch i'n dogfennau y gellir eu lawrlwytho (fel testun plaen neu Braille) neu os ceiwch unrhyw broblemau hygyrchedd gyda'n gwefan, cysylltwch â ni.

Nid yw Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol yn cymryd cyfrifoldeb am geisiadau trydydd parti.

## Ffeiliau y gellir eu lawrlwytho

Mae ffeiliau ar gael i'w lawrlwytho mewn amrywiaeth o fformatau - y mwyaf cyffredin yw Adobe Acrobat (.pdf), Microsoft Word (.doc a .docx) a Microsoft Excel (.xls a .xlsx). Gwnaed addasiadau rhesymol i sicrhau bod cyhoeddiadau digidol sydd ar gael ar ein gwefan yn hygyrch. Rydym wedi gwneud hyn drwy greu PDFs wedi'u tagio a phrofi'r gorchymyn darllen. Dylai pob delwedd gael testun capswn neu alt. Fodd bynnag, efallai y byddwch yn dod ar draws fersiynau cynharach o ffeiliau ar ein gwefan nad ydynt mor hygyrch. Os oes angen unrhyw ddogfen arnoch mewn fformat gwahanol, [cysylltwch â'n tîm gwybodaeth](#).

Efallai y bydd angen i chi lawrlwytho [Adobe Reader](#) i weld ffeiliau ar ffurf PDF neu lawrlwytho meddalwedd gwyliwr Microsoft sydd ar gael fel pecynnau ar wahân ar gyfer ffeiliau [Word](#), [Excel](#) neu [PowerPoint](#).

Mae'r fersiwn ddiweddaraf o Adobe Acrobat Reader wedi ymgorffori nodweddion hygyrchedd. Er enghraifft, gallwch glywed dogfen PDF yn cael ei darllen yn uchel neu sgrolio dogfen PDF yn

awtomatig. Gallwch weld y nodweddion hyn yn y ddewislen Golygu Dewisiadau. Dysgwch fwy am yr [offeryn trosi ar-lein Adobe am ddim](#) sy'n trosi cynnwys ffeiliau PDF i HTML neu destun y gall y rhan fwyaf o geisiadau darllenwyr sgrin ei ddeall.

## Newid main testun

Mae'r rhan fwyaf o borwyr gwe modern yn caniatáu i ddefnyddwyr newid maint y testun, yn ogystal â chwyddo'r dudalen.

[Mae gwefan AbilityNet yn manylu ar y broses ar y porwyr mwyaf poblogaidd.](#)

## Technolegau cynorthwyol

Defnyddiwyd y fersiynau diweddaraf o'r technolegau cynorthwyol canlynol yn ystod y profion a gwelwyd eu bod yn gydnaws â'r safle, ac eithrio ardaloedd sydd â [chyfyngiadau hygyrchedd](#).

- Darllenydd sgrin JAWS
- Dragon Naturally Speaking Pro
- Chwyddwydr sgrin ZoomText AI Squared

Noder: Efallai y byddwch yn cael problemau gyda fersiynau h?n o'r ceisiadau hyn neu dechnolegau cynorthwyol eraill. Os cewch unrhyw broblemau, mae croeso i chi [gysylltu â ni](#).

## Cydnawsedd y porwr

Mae'r safle wedi'i brofi ar draws platfformau a thraws-borwr ac ar hyn o bryd mae'n gydnaws â phorwyr modern, megis Google Chrome a Internet Explorer 11.

Noder: Efallai y cewch chi broblemau gyda fersiynau h?n o'r porwyr hyn neu borwyr gwe eraill. Os cewch unrhyw broblemau, mae croeso i chi [gysylltu â ni](#).

## Dolenni defnyddiol

Os oes angen mwy o wybodaeth arnoch am ddefnyddio nodweddion y wefan hon, hygyrchedd cyffredinol neu ddefnyddio'r we a'r cyfrifiadur, rydym wedi darparu rhai dolenni defnyddiol i helpu:

- [W3C \(World Wide Web Consortium\) Better Web Browsing Guide](#)
- [BBC \(British Broadcasting Corporation\) My Web, My Way](#)
- [My Computer My Way](#)
- [Microsoft Accessibility](#)
- [Apple Accessibility](#)
- [RNIB \(Royal National Institute for Blind People\)](#)
- [AbilityNet](#)

## Cysylltwch â ni

Rydym yn chwilio'n barhaus am atebion a fydd yn gwella hygyrchedd ein gwefan. Rydym yn croesawu adborth ynghylch hygyrchedd y safle hwn. Os oes gennych unrhyw sylwadau neu gwestiynau, cysylltwch â ni ar [digital@heritagefund.org.uk](mailto:digital@heritagefund.org.uk).

Os yw eich ymholiad yn ymwneud â chyhoeddiadau digidol, cysylltwch â'n tîm gwybodaeth drwy:

Ffôn: 020 7591 6042

Ffôn testun: 020 7591 6255

E-bost: [enquire@heritagefund.org.uk](mailto:enquire@heritagefund.org.uk)

## **Gweithdrefn orfodi**

Yng Nghymru, Lloegr a'r Alban, mae'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol yn gyfrifol am orfodi Rheoliadau Hygyrchedd Cyrff Sector Cyhoeddus (Gwefannau a Chymwysiadau Symudol) (Rhif 2) 2018 (y 'rheoliadau hygyrchedd'). Os nad ydych yn hapus gyda'r ffordd rydym yn ymateb i'ch cwyn, cysylltwch â'r [Gwasanaeth Cynghori a Chynorthwyo Cydraddoldeb \(EASS\)](#).

Yng Ngogledd Iwerddon, mae Comisiwn Cydraddoldeb Gogledd Iwerddon yn gyfrifol am orfodi Rheoliadau Hygyrchedd Cyrff Sector Cyhoeddus (Gwefannau a Chymwysiadau Symudol) (Rhif 2) 2018 (y 'rheoliadau hygyrchedd'). Os nad ydych yn hapus gyda'r ffordd rydym yn ymateb i'ch cwyn, cysylltwch â [Chomisiwn Cydraddoldeb Gogledd Iwerddon](#).

***Paratowyd y datganiad hwn ar Ionawr 2019. Fe'i diweddarwyd ddiwethaf ar Fai 2021.***